Gweiddi

# Tasg 1

**(Estynnol, sbardun 2)**

**A**

Rhowch y pwyntiau hyn yn y drefn maen nhw'n ymddangos yn y llythyr:

Mae'r athrawon eisiau i'r plant siarad Cymraeg drwy'r dydd.
Mae'n rhaid i'n plentyn fynd i'r ysgol gynradd leol.
Dydy ein plentyn ddim yn gallu darllen Saesneg eto.
Does dim pwynt dysgu Cymraeg.

**B**

Sut rydych chi'n ymateb i'r pwyntiau hyn o'r llythyr? Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â safbwynt y llythyrwyr? Trafodwch mewn pâr/grŵp.

a) Rydyn ni o'r farn ei fod yn gwastraffu llawer o amser wrth wneud popeth drwy'r Gymraeg.
b) Beth yw'r pwynt iddo ddysgu Cymraeg?
c) Dydyn ni ddim yn teimlo ein bod ni'n colli dim byd yn gymdeithasol nac yn ddiwylliannol oherwydd ein bod ni'n methu siarad Cymraeg.

**C**

Ar ôl darllen yr eitem ar y *Welsh Not* yn y rhifyn hwn o *Gweiddi*, ydych chi'n cytuno â'r gosodiad hwn o'r llythyr?

"...rydyn ni'n poeni weithiau bod rhyw fath o 'English Not' ar waith yn yr ysgol."

Pam mae'r llythyrwr wedi defnyddio'r ymadrodd 'English Not', yn eich barn chi?

**CH**

Ar ôl trafod, cynlluniwch y pwyntiau y byddech chi'n eu cynnwys mewn llythyr byr sy'n ymateb i lythyr Des a Beth Whittaker. Ydych chi eisiau newid eu hagwedd? Os ydych chi, beth yw'r ffordd orau o wneud hyn?